

CFA14 Unigolyn 07

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol |
Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?

Ymateb gan: Unigolyn 03 | Evidence from: Individual 03

1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?

Does dim llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn y pentref lle dwi'n byw. Mae digwyddiadau menter iaith yn cael eu trefnu yn Sir fflint neu ynn nghanol dinas Wrecsam, ond mewn ardaloedd gwledig doedd dim byd ar gael.

2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?

Falle gan ddefnyddio llyfrgelloedd i'w gynnal digwyddiadau cymdeithasol, e.e. bore coffi, te prynhawn, blasu gwin gyda nos, cael siaradwyr gwadd nawr ac yn y man. Mae rhaid i ni fynd i Saith Seren un Wrecsam neu i'r Stiwt yn Rhos os rydyn ni eisiau gweld sioeau Cymraeg. Beth am neuaddau cyngerdd neu cymunedau eraill?

3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?

Mae'n debyg bod Saith Seren yn llwyddiannus ac mae'r lle wedi helpu datblygu cyfleoedd i bobl cymdeithasu yn y Gymraeg, ond nid pawb eisiau mynd i dafarndai. Mae ganolfan dysgu cymraeg wedi helpu cynyddu nifer o ddysgwyr yn y sir.

4. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder ynddi, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?

Mae'n bwysig iawn i'r senedd a'r cynghorau annog plant sy'n cael addysg Gymraeg i ddefnyddio'r iaith tu allan o'r ysgol. Dyma'r dyfodol yr iaith. Byddai mwy o gyfleoedd i deuluoedd cymdeithasu yn y Gymraeg helpu nhw mwynhau a bod yn falch o'r iaith.

5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?

Mae'n amlwg bod yr Eisteddfod yn cael effaith ar ardaloedd gyda llai o siaradwyr rhugl ac yn perswadio pobl i ddechrau dysgu'r iaith. Falle byddai'n syniad da os byddai bob ysgol yn cael cefnogaeth gyda chystadlu yn yr Urdd, er enghraifft. Bob ysgol, nid dim ond ysgolion Cymraeg.

6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?

Pwysig i gael gwybodaeth dwyieithog ac yn cyhoeddi'r digwyddiad mewn amser. Gwahoddiad i bob plentyn i fynd i'r Urdd am ddim. Byddai'r teuluoedd yn gwario arian ar eu tocynnau ac ar y Maes. Tasai rhywun yn byw yn Ffrainc neu Sbaen, byddai rhaid i'r person dysgu'r iaith, ond yng Nghymru dydyn ni ddim. Mae pobl sy wedi dod yma o dramor, e.e. o Wcráin, yn dysgu Cymraeg, ond pobl sy wedi cael eu geni yma, ddim yn dysgu Cymraeg. Ond mae rhaid i ni apelio at bobl ifanc am y manteisio i'r iaith.

7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?

Posibilrwydd o gael mwy o arian i'r ysgolion sy'n hyrwyddo'r iaith.
